

At sylw Gweinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 hyd at 31/03/2020

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol **Bro Morgannwg** ar gyfer **2019-20**.

Y camau wedi'u cymryd i hyrwyddo teithio llesol

Mae'r Cyngor yn cynnig Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol i'w holl ysgolion cynradd. Llwyddodd 1473 o ddisgyblion gyrraedd Lefel 1 a 2 yn 19/20.

Cafodd Hyfforddiant Kerbcraft a Cherddwyr Ifanc ei gyflwyno i 895 o ddisgyblion oedran cynradd yn 19/20.

Mae gan y ddwy fenter hyn gyfradd gyfranogiad uwch nag yn 18/19.

Ymgysylltodd y Cyngor â gwasanaethau Sustrans Cymru i gynnal sesiynau ymgysylltu ag ysgolion mewn 8 ysgol yn y Fro er mwyn creu mapiau teithio llesol yn dangos llwybrau i ysgolion. Bydd mapiau'n cael eu dosbarthu i ysgolion ym Mhenarth, y Barri a Llanilltud Fawr yn nhyrnor cyntaf blwyddyn academaidd 20/21.



Derbyniodd pob Ysgol Gynradd yn y Fro 4 beic cydbwysedd i'w defnyddio mewn ysgolion (cyfanswm o 188) er mwyn annog ymddygiad beicio cadarnhaol cynnar. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer darpariaeth bellach ar gyfer y flwyddyn ariannol 20/21.



Mae 9 beic cronfa wedi'u hadnewyddu i'w defnyddio gan staff y Cyngor ar deithiau gwaith byr yn hytrach na cheir cronfa.

Prynwyd 2 E-beic i'w defnyddio gan staff Cyngor Bro Morgannwg. Mae hyn er mwyn hyrwyddo beicio yn y gweithle.

Mae cypyrddau clo wedi'u gosod yn Storfa'r Alpau i gynnig storfa i staff y Cyngor sy'n dewis beicio i'r gwaith. Caiff hyn ei ategu yn 20/21 gyda chyfleusterau toiled a chawod wedi'u hadnewyddu yn Storfa'r Alpau a ariennir gan Raglen Gyfalaf y Cyngor.

Gwnaed gwelliannau i'r droetfordd mewn gwahanol leoliadau yn y Fro gan gynnwys cyrbau wedi'u gostwng, palmentydd cyffyrddol ac ehangu'r droetfordd.

Mae'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Awdurdodau Lleol eraill, Llywodraeth Cymru, Sustrans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn rhannu arfer da a gwybodaeth.

Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â rôl frwd fel aelod o Siarter Staff Iach y Fro, gan weithio gyda'u partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.



Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo Teithio Llesol drwy ei lwyfannau cyfryngau digidol,

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Active-Travel.aspx>

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus teithio llesol i bennu'r safleoedd ar gyfer 6 gorsaf docio E-beic ym Mhenarth.

Cafodd y camau eu cymryd er mwyn sicrhau llwybrau teithio llesol diogel a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig.

Disgwylir i bob cynllun datblygu newydd ym Mro Morgannwg ddarparu seilwaith Teithio Llesol ac mae swyddogion yn gwneud sylwadau ar yr holl gynlluniau teithio sy'n cael eu danfon drwy'r Broses Gynllunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.


Disgwylir i bob datblygiad ddarparu seilwaith Teithio Llesol naill ai drwy waith priffyrdd Adrannau 278/38 a/neu gyllid Adran 106.

	<p>Bu'r Cyngor yn tendro am gynllun peilot llogi E-beic ar gyfer Penarth a dyfarnodd y contract i Nextbike. https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/consultation/previous-consultations/Penarth-nextbike-scheme-recommendations.aspx</p> <p>Defnyddiwyd y Gronfa Dyrannu Craidd Teithio Llesol er mwyn gwella llwybrau TLI (cyrbau wedi'u gostwng, palmant cyffyrddol) a darparu llochesau beiciau a beiciau cydbwysedd mewn ysgolion.</p>
<p>Costau yr aethpwyd atynt ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol a chyfleusterau cysylltiedig a gafodd eu gwneud yn y flwyddyn ariannol llawn flaenorol</p>	<p>Cynllun E-beic Penarth £300,000 (A106) – Gorsafoedd Nextbike mewn 6 lleoliad ym Mhenarth. Disgwylir iddo gael ei lansio yn hydref 2020.</p> <p>£83,781 (LIC LTF) Rhwydwaith Trafnidiaeth Arfordir Caerdydd/y Fro – WelTAG cam 2 (roedd cyfran o'r cyllid hwn ar gyfer elfen TLI). https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Roads/Transport-Studies/Penarth-Cardiff-Barrage-Sustainable-Transport-Corridor-Study.aspx</p> <p>£112,703 (LIC LTF) M4 J34 i Gynllun Rhwydwaith Trafnidiaeth Maes Awyr Caerdydd – Cam 2 WelTAG (roedd cyfran o'r cyllid hwn ar gyfer elfen TLI). https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Roads/Transport-Studies/M4-J34-to-A48-Transport-Improvements.aspx</p> <p>£114,000 (SRiC LIC) Porthkerry Road/Romilly Road/Windsor Road Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – gwelliannau i'r droetffordd / cyffyrdd sydd wedi gwella'r llwybr TLI, yn enwedig i ysgolion yn yr ardal.</p>

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu neu a ariennir yn rhannol gan drydydd partïon.</p>	<p>Blwyddyn Ariannol 20/21 £43,843 (WG SRiC) Cynllun Teithio Llesol Sain Tathan – i'w ddylunio'n fanwl i greu 1 cilomedr o lwybr beicio/troetffordd a rennir. Ceisir cyllid ar gyfer adeiladu yn y Flwyddyn Ariannol 21/22</p> <p>Blwyddyn Ariannol 20/21 £410,000 (Llywodraeth Cymru TLI Craidd) Cynllun Llogi Beiciau – arian a roddwyd i ehangu'r cynllun llogi beiciau trydan i Sili. Bydd cyfleoedd eraill ar gyfer gorsafoedd a chynlluniau yn parhau i gael eu hystyried yn yr ALI. Defnyddir y grant hwn hefyd ar gyfer dylunio manwl ar gyfer Waycock Cross i Faes Awyr Caerdydd, dichonoldeb a dyluniad ar gyfer Cardiff Road, y Barri; Llanmaes Road, Llanilltud Fawr a Llantwit Major Road, y Bont-faen. Yn ogystal â darparu</p>
---	---

	<p>beiciau cydbwysedd, helmedau a storffeydd beiciau ychwanegol mewn ysgolion.</p>
<p>Hyd y llwybrau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Defnydd a Rennir 	<p>Datblygiad Darren Farm - 1.6 cilomedr drwy ddatblygiadau tai newydd sydd hefyd yn gwella mynediad i gerddwyr/beiciau o Crossways i'r Bont-faen.</p> <p>Llwybr beicio/troetfordd yr A4226 (Five Mile Lane) sy'n cysylltu'r Barri â'r A48 – cwblhawyd 6.5 cilomedr ym mis Awst 2019.</p>  <p>Ffordd Mynediad y Gogledd (Sain Tathan/Llanilltud Fawr) bron â'i chwblhau – cwblhawyd 2.25 cilomedr o droetffyrdd/llwybrau beicio defnydd a rennir ym mis Hydref 2019.</p> 

<p>Hyd y llwybrau gwell:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Defnydd a Rennir 	<p>Blwyddyn Ariannol 19/20 - 838 metr – Gwelliannau i gerddwyr INM y Sili (cyrbau isel a phalmentydd botymol)</p> <p>Blwyddyn Ariannol 19/20 - 1136 metr – Gwelliannau i gerddwyr INM y Bont-faen (cyrbau isel a phalmentydd botymog)</p> <p>Blwyddyn Ariannol 19/20 - 1190 metr – Gwelliannau i gerddwyr INM Llanilltud Fawr (cyrbau isel a phalmentydd botymog)</p> <p>Blwyddyn Ariannol 19/20 - 648 metr – Gwelliannau i gerddwyr INM Dinas Powys (cyrbau isel a phalmentydd botymog)</p> <p>Blwyddyn Ariannol 19/20 – 652 metr - Treharne Road, y Barri (A106) troetffordd wedi'i gwella</p> <p>Blwyddyn Ariannol 19/20 - 1446 metr - Gwelliannau Teithio Llesol y Rhws – uwchraddio'r droetffordd/llwybr beicio a rennir</p>
<p>Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell</p>	<p>Blwyddyn Ariannol 19/20 - Gosod llochesau beicio mewn 5 Ysgol Gynradd ac 1 pod sgwter - £40,000 (Dyraniad craidd CTLI)</p> 

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Cafodd cais Teithio Llesol am ariannu llwybr beiciau/troetffordd o gylchfan Biglis i Ddinas Powys ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cais am gyllid 20/21. Bu'r cais yn aflwyddiannus ond mae Swyddogion o'r Cyngor a Swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi trafod pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer y cais hwn, a bydd cais am gyllid yn cael ei wneud pan fydd cyllid ar gael. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i'r potensial i ddefnyddio arian A106 er mwyn datblygu'r Cynllun hwn.

Rhodddwyd arian i gynhyrchu arolygon dylunio a chynnal arolygon defnydd manwl ym Mlwyddyn Ariannol 20/21 ar gyfer Waycock Cross, y Barri i'r Maes Awyr, er mwyn cyflwyno cais am adeiladu ym Mlwyddyn Ariannol 21/22. Bydd y Cyngor yn parhau i bwysu am ariannu'r cyswllt Teithio Llesol hwn, y mae mawr ei angen, er mwyn cysylltu'r Rhws a'r Barri ac yn ei dro, y Barri a Chaerdydd.

Bydd gwaith dichonoldeb a dylunio yn cael ei wneud ar lwybrau TLI posibl ar hyd Llanmaes Road, Llanilltud Fawr; Geraints Way, y Bont-faen a Cardiff Road, y Barri drwy'r Gronfa Ddyrannu Craidd Teithio Llesol.

Gorffennaf-Medi 2020 - Ailgyflwynodd y Cyngor y cynllun Beicio i'r Gwaith ar gyfer cyflogeion Cyngor Bro Morgannwg, gan ganiatáu prynu beiciau hyd at werth £3500.

Rhodddwyd cyllid ar gyfer gorsaf docio Nextbike yn y Sili a fydd yn ategu cynllun Penarth. Un dyhead arall fydd sefydlu cynllun llogi Nextbike i gynnwys Glannau'r Barri, Ynys y Barri a'r Knap.

Mae ceisiadau am grant drwy LTF, SRiC, Metro, Bargen Dinas Caerdydd ac ati i gyd yn cynnwys cynigion Teithio Llesol er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud y gorau o bob llwybr ariannu sydd ar gael.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein a'i fod ar gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

Llofnod y Prif Weithredwr:

Enw'r Prif Weithredwr: